**Jeremy Miles AS/MS**
**Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd**
**Counsel General and Minister for European Transition**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

David Rees AS
Cadeirydd y Panel Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol
seneddeaal@senedd.cymru

22 Chwefror 2021

Annwyl David,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 27 Ionawr.

Gan ymateb i'ch cwestiynau yn eu tro, gallaf gadarnhau, ac eithrio'r Fframweithiau Cyffredin sy'n ymwneud â Chydnabod Cymwysterau Proffesiynol yn Gilyddol, Gwasanaethau a Chynhyrchion Organig, fod Fframweithiau Cyffredin dros dro wedi cael eu cymeradwyo gan Weinidogion Portffolio ledled y DU ym mhob maes sy'n berthnasol i Gymru. Mae'r Fframwaith Cyffredin mewn perthynas â Gwrtaith wedi'i gymeradwyo gan y Gweinidogion Portffolio. O ran Cynhyrchion Organig, mae'r camau olaf yn y broses o gael cymeradwyaeth y Gweinidogion Portffolio yn mynd rhagddynt ar hyn o bryd. Mae Gweinidogion y Cyd-bwyllgor Gweinidogion (Negodiadau'r UE) hefyd wedi cymeradwyo'r holl Fframweithiau Cyffredin dros dro, ac eithrio'r rheini ar gyfer Gogledd Iwerddon, lle maent yn dal i fynd drwy'r broses Weinidogol. Fodd bynnag, ystyriwn y gellir gweithredu'r Fframweithiau Cyffredin dros dro yn y cyfamser.

Mae Fframweithiau Cyffredin Dros Dro yn gweithredu dros dro hyd nes y cytunir ar bob un ar ei ffurf derfynol. Maent eisoes wedi bod drwy broses gydweithredol o ddatblygu polisi, profi casgliadau polisi, cynnal adolygiadau gan gymheiriaid a, lle y bo'n briodol, ymgymryd ag ymarferion ymgysylltu allanol sy'n benodol i sector. Fel sy'n ofynnol, yn 2021, bydd timau polisi yn cynnal ymarfer ymgysylltu technegol pellach â rhanddeiliaid. Byddant hefyd yn datrys rhyngddibyniaethau ac yn eu hintegreiddio, ac yn bwrw ati gydag unrhyw ddatblygiadau polisi terfynol angenrheidiol. Cânt eu cyflwyno wedi hynny i'r deddfwrfeydd graffu arnynt cyn i'r Gweinidogion roi eu cadarnhad terfynol.

Rwyf wedi ymrwymo i gyhoeddi'r holl Fframweithiau Cyffredin (gan gynnwys unrhyw ddogfennau cysylltiedig) ar y cyfle cyntaf posibl. Rydym yn gweithio ar draws y pedair llywodraeth i sicrhau bod hyn yn cael ei gydgysylltu'n briodol ac y gellir cynnal tryloywder

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
YPCCGB@llyw.cymru / PSCGBM@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

gyda deddfwrfeydd a rhanddeiliaid. Byddwn yn bwydo'r pwynt yr ydych wedi'i godi ynghylch gosod y dogfennau hyn wrth i'r prosesau cyhoeddi gael eu datblygu.

Yn olaf, rwy'n cadarnhau, mewn meysydd Fframweithiau Cyffredin lle mae cytundebau dros dro ar waith, y caiff unrhyw ymwahanu o ran polisi ei reoli o dan delerau'r Fframwaith Cyffredin. Yn yr ychydig feysydd hynny lle na chafwyd fframweithiau dros dro hyd yma, ni fyddem yn disgwyl i bolisi sy'n ymwahanu gael ei ddatblygu mewn ffyrdd a fyddai'n torri ar draws Fframwaith Cyffredin y dyfodol.

Mae'r amgylchedd yn dilyn cyfnod Pontio yr UE yn un heriol ar gyfer y rhaglen, yn enwedig felly oherwydd y cymhlethdodau a achoswyd gan ddeddfwriaeth Llywodraeth y DU mewn perthynas â'r Farchnad Fewnol. Byddaf wrth reswm yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi am yr holl faterion hyn wrth i'r rhaglen fynd rhagddi.

Yn gywir



**Jeremy Miles AS**
Y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd
Counsel General and Minister for European Transition